
# Sgiliau Darllen



**Canmoliaeth!**

Allwedd i unryw lwyddiant ydy **HYDER**. Cofiwch ganmol eich plentyn yn gyson wrth iddyn nhw ddarllen. Yn fwy, dwedwch yn glir pam rydych chi'n eu canmol nhw. *"Roeddet ti wedi cymryd dy amser i adeiladu'r gair newydd yna."*



**Rhuglder** *(Darllen esmwyth heb oedi)*

Mae'r gallu i ddarllen yn rhugl yn holl bwysig. Pan fo plentyn yn darllen gyda rhuglder a mynegiant—yn lle canolbwyntio ar y dechneg o ddarllen—gall ei ymennydd ganolbwyntio ar y wybodaeth a beth sydd yn digwydd yn y testun.




**Adeiladu Geiriau Newydd**

⇒ Dysgwch eich plentyn i edrych ar y gair a'i dorri'n friciau bach 'ann-i-bynn-ol'
⇒ Gofynnwch i'r plentyn edrych yn ofalus a dweud y gair newydd ychydig o weithiau.
⇒ Cofiwch – ar ôl treulio amser yn datgodio gair – ewch yn ôl i ddechrau brawddeg cyn parhau i ddarllen.



**Deall Geirfa Newydd**

⇒ Beth am ofyn i'ch plentyn fod yn dditecif geiriau?
⇒ *'Sut mae'r gair yn cael ei ddefnyddio yn y frawddeg?'*
⇒ *'Ydy'r gair yn cynnwys rhan o air arall?'*
⇒ *'Pam mae'r awdur wedi dewis y gair yna efallai?'*



**Dealltwriaeth**

Os nad ydy'ch plentyn yn deall – dydyn nhw ddim yn darllen yn effeithiol. Gallwch sicrhau bod eich plentyn yn deall trwy ofyn cwestiynau:

⇒ *'Beth sy'n digwydd yn y stori?'*
⇒ *'Am beth mae'r testun yn sôn?'*
⇒ *'Pwy ydy'r prif gymeriadau?'*
⇒ *'Beth maen nhw'n gwneud a dweud?'*
⇒ *'Beth neu bwy mae'r cymeriad yn ei hoffi/ei gasáu?'*
⇒ *'Beth mae'r awdur yn awgrymu am y cymeriad?'*
⇒ *'Ym mhle mae'r stori'n digwydd?'*
⇒ *'Pa awyrgylch ydy'r awdur yn ceisio ei greu?'*

**Amrywiaeth**

Mae'n bwysig bod eich plentyn yn darllen amrywiaeth o destunau: llyfrau ffuglen, cerddi, llyfrau ffeithiol, pamffledi, cyfarwyddiadau, gwefannau, erthyglau a chyfarwyddiadau.